

GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD

POLISI ADDYSG

1. Datganiad Cenhadaeth

Mae Gwasanaeth Addysg Archifau Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth llawn ac effeithiol yn Archifau Gwynedd, a thrwy hynny feithrin a chyfoethogi dealltwriaeth pobl o'u hanes a'u hetifeddiaeth, a gwasanaethu'r gymuned yn ysgolion a cholegau lleol yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol.

2. Nodau

- 2.1 Hybu gwell ymwybyddiaeth o natur a swyddogaeth yr archifau a'u casgliadau.
- 2.2 I hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r archifau gan ysgolion a cholegau, ac o'r casgliadau/dogfennau a gedwir yno.
- 2.3 Galluogi'r archifau i wneud y mwyaf o botensial addysgiadol eu chasgliadau a'u hadnoddau.

3. Amcanion

Sicrhau fod addysg yn cael ei weld fel swyddogaeth graidd yn yr archifau, ac annatod o'r broses reoli a chynllunio.

- 3.2 Datblygu gweithgareddau addysgiadol sydd wedi eu targedu at anghenion ysgolion a cholegau.
- 3.3 Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd mewn addysg ffurfiol ac addasu defnydd a wneir o archifau mewn ymateb i'r datblygiadau.
- 3.4 Cadw cyswllt agos â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg archifau, a maes addysg yn gyffredinol.
- 3.5 Datblygu rhaglen HMS effeithiol i amlygu cyfraniad archifau a gweithgareddau addysgiadol archifau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 3.6 Sicrhau bod arian i gynnal polisi addysg gweithredol.

4. Cynulleidfaoedd

Bydd Swyddog Addysg yn cyfoethogi'r gwasanaeth i holl aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â'r archifau, ond bydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth i'r grwpiau canlynol:

- disgyblion ac athrawon ysgolion Gwynedd, ar lefel gynradd ac uwchradd

- Grwpiau addysg oedolion
- sefydliadau addysgol y telir amdanynt gan Gyngoer Gwynedd yn llawn neu yn rhannol neu drwy unrhyw ffynhonnell arall gan y Cyngor.

5. **Darpariaeth**

Darperir gwasanaeth addysg llawn i dargedu'r cynulleidfaoedd uchod fel a ganlyn:

- gwasanaeth ceisiadau am adnoddau i'r ysgolion
- teithiau tywys yn yr archifau
- gweithgareddau addysgiadol i ateb anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol
- pecynnau adnoddau addysgol i ysgolion a cholegau yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol
- gwasanaeth estyn allan yn seiliedig ar ddogfennau i ysgolion a cholegau
- arddangosfeydd parhaol
- arddangosfeydd dros dro

6. **Adnoddau**

Gellir cryfhau a datblygu adnoddau'r gwasanaeth addysg fel a ganlyn:

- cynyddu ymwneud y Swyddog Addysg wrth gynllunio arddangosfeydd, gweithgareddau a chyhoeddiadau newydd
- dwyn staff yr archifdai i mewn i raglen addysgol yr archifau
- datblygu'r rhaglen dechnoleg gwybodaeth

7. **Hyfforddi**

Bydd y Swyddog Addysg yn cyfoethogi'r gwasanaeth trwy sicrhau rhaglen hyfforddi i staff ac aelodau sefydliadau addysg trwy'r dulliau isod:

- cymryd rhan mewn cyrsiau addysg archifau arbennig
- annod cymryd rhan a darparu Hyfforddiant Mewn Swydd i athrawon er mwyn esbonio gwerth archifau mewn addysg ac amlinellu eu darpariaeth a sgôp eu gwasanaeth
- rhoi cyfle i ysgolion, colegau a phrifysgolion ddefnyddio archifai i roi profiad i'w myfyrwyr mewn amgylchedd gwaith fel paratoad ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau profiad gwaith a chymryd rhan mewn cynlluniau partneriaeth
- bod yn ymwybodol o anghenion hyfforddi staff yr archifai parthed y cyfraniad addysgol

8. **Marchnata**

Er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am natur y gwasanaethau a ddarperir, ac i ddenu cynulleidfaoedd newydd, bydd yr archifau yn hybu'r gwasanaeth addysg fel a ganlyn:

- llythyrau newyddion a thafenni gwybodaeth i sefydliadau addysgol
- cyfleoedd hyfforddi i ysgolion
- cymryd rhan mewn cyrsiau a drefnwyd gan y gwasanaeth addysg ymgynghorol
- cymryd rhan mewn cyrsiau i ddarpar-athrawon yng ngholegau a phrifysgolion y sir
- cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau
- gwybodaeth mewn llawlyfrau addysgol

9. **Gwerthuso**

Rhaid gwerthuso'r gwasanaeth er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn parhau'n effeithio. Gwneir hynny fel a ganlyn:

- cofnodion manwl o ffigyrau ymwelwyr
- adborth personol
- arsylwi
- cymryd rhan yn dangosyddion perfformiad y Gyfadran a'r cynllun gwelliannau
- cofnod manwl o'r nifer o geisiadau am adnoddau gan unigolion, ysgolion a cholegau